Cylch Gwaith Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd CCAUC

1 CYFANSODDIAD

Pwyllgor o eiddo'r Cyngor a elwir yn Bwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (y Pwyllgor) a sefydlwyd gyda'r cylch gorchwyl a rheolau sefydlog canlynol drwy benderfyniad y Cyngor dyddiedig 3 Gorffennaf 2009, wedi'i ddiwygio 10 Rhagfyr 2010.

.

2 CYLCH GORCHWYL

a) Cynghori'r Cyngor ar bob mater yn ymwneud â dysgu ac addysgu mewn Addysg uwch, gan gynnwys sgiliau, ehangu mynediad i addysg uwch, Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

b) Ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mewn perthynas ag asesu ansawdd, hynny yw, sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yn y sefydliadau y mae'r Cyngor yn cyllido neu'n ystyried cyllido eu gweithgareddau.

c) Bod yn seinfwrdd ar gyfer ymagweddau newydd at ddysgu ac addysgu yn yr ystyr ehangaf er mwyn hysbysu'r Cyngor.

d) Argymell i'r Cyngor strategaethau ar gyfer cefnogi cynllun corfforaethol CCAUC lle y mae'n ymwneud â materion dysgu ac addysgu cyffredinol.

e) Ystyried unrhyw faterion a gyfeirir at y Pwyllgor gan y Cyngor.

f) Ym mhob un o'r uchod, ceisio a chymryd i ystyriaeth farn yr holl randdeiliaid perthnasol ac ymchwil priodol a thystiolaeth arall ac, yn yr un modd, ymgorffori cyngor gan arbenigwyr annibynnol lle y bo'n briodol.

3 RHEOLAU SEFYDLOG

3.1 Defnyddir y Rheolau Sefydlog safonol ar gyfer Pwyllgorau CCAUC.

3.2 Aelodaeth a Phresenoldeb

3.2.1 Bydd gan y Pwyllgor hyd at 17 aelod, gan gynnwys o leiaf un aelod sy'n aelod o'r Cyngor. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor. Dylai'r mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor ddod o sefydliadau yn y sector AU*.

3.2.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor yw 4 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu'r sawl a enwebir ganddo/ganddi.

3.2.3 Bydd Pennaeth y Tîm Strategaeth, Dysgu a Chyllido yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor fel rheol.

3.2.4 Bydd cynrychiolydd o'r Tîm Ymchwil, Busnes a Chymunedau yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor fel rheol.

3.2.5 Bydd aelod o'r Tîm Strategaeth, Dysgu a Chyllido yn gwasanaethu'r Pwyllgor.

4 AWDURDOD

4.1 Corff cynghori heb unrhyw bwerau gweithredol yw'r Pwyllgor.

4.2 Bydd gan y Pwyllgor yr awdurdod i sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i ddarparu cyngor yn ôl yr angen, gan gynnwys ar faterion o fewn ei gylch gwaith sy'n codi o ddyletswyddau statudol y Cyngor i asesu ansawdd darpariaeth.

*

Mae'r Ddeddf (http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1992/ukpga_19920013_en_6#pt2-pb1-l1g62) yn datgan:

Asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau

(1) Bydd pob cyngor yn —

(a) sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y maent hwy'n darparu, neu'n ystyried darparu, cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau o dan y Rhan hon o'r Ddeddf, a

(b) sefydlu pwyllgor, a elwir yn "Bwyllgor Asesu Ansawdd", sydd â'r swyddogaeth o roi cyngor iddynt ar gyflawni eu dyletswyddau o dan baragraff (a) uchod ac unrhyw swyddogaethau eraill y gall y cyngor ofyn i'r pwyllgor eu cyflawni.

(2) Bydd y mwyafrif o aelodau'r pwyllgor —

(a) yn bersonau sy'n dod o fewn isadran (3) isod, a

(b) ni fyddant yn aelodau o'r cyngor.

(3) Mae personau'n dod o fewn yr isadran hon os yw'n ymddangos i'r cyngor fod ganddynt brofiad o, ac wedi dangos y gallu i, ddarparu addysg uwch mewn sefydliadau o fewn y sector addysg uwch ac, wrth benodi personau o'r fath, bydd y cyngor yn cymryd i ystyriaeth a yw'n dderbyniol iddynt fod ynghlwm wrth ddarparu addysg uwch neu'n gyfrifol am ddarpariaeth o'r fath ar hyn o bryd.

(4) Bydd Atodlen 1 i'r Ddeddf hon yn berthnasol i bwyllgor a sefydlir o dan yr adran hon fel y mae'n berthnasol i bwyllgorau a sefydlir o dan baragraff 8 o'r Atodlen honno.